

ADFENT 2017

Tangnefedd i'r holl fyd ...

Mae'n siŵr gen i y byddwn ni i gyd, rhywbryd yn ystod yr ŵyl, yn darllen y stori mae Luc yn adrodd am yr angylion yn cyhoeddi newyddion da i'r bugeiliaid:

*Gogoniant yn y goruchaf i
Dduw ac ar y ddaear
tangnefedd.*

Dechreuwyd y ffydd Gristnogol gydag emyn a braf fydd canu rhai o'n hoff garolau eleni eto.

*Gogoniant i'r goruchaf Dduw
Tangnefedd i'r holl fyd
Ewyllys da a fyddo rhan
Y ddaear oll i gyd*

Sonnir am dangnefedd ar y ddaear wrth adrodd am eni'r Iesu ac eto cyn ei farw.

Meddai Iesu, *Yr wyf yn gadael ichwi dangnefedd.*

Beth yw ystyr y gair tangnefedd?

Dim absenoldeb rhyfel, dim dianc rhag y byd, dim byw bywyd diflas digynnwrf. I'r gwrthwyneb!

Mae'r rhodd hon yn rhywbeth na all tristwch na pherygl na dioddefaint effeithio arni hi o gwbl. Mor wahanol i'r *Pax Romana* oedd gan y byd i'w gynnig.

Mae E'n dweud ymhellach. *'Nid fel mae'r byd yn rhoi yr wyf yn rhoddi i chwi,' sy'n sbarduno'r cwestiwn 'Sut y mae'r byd yn rhoi?'*

Yn y byd

- Cawn ein hanrhegu am ein bod ni wedi rhoi anrheg i rywun arall. Dyna'r drefn arferol yr amser yma o'r flwyddyn.
- Cawn ein hanrhegu am ein bod ni wedi cyflawni rhyw bum mlynedd ar hugain mewn swydd, efallai. 'Rydym wedi ennill y wobwr am inni weithio'n galed am gyfnod hir.
- Cawn ein hanrhegu am ein bod wedi cyrraedd ryw oedran arbennig. Wats aur wrth gyrraedd pen-blwydd un ar



hugain, efallai, neu wersi gyrru am ein bod ni'n ddwy ar bymtheg.

Fel hynny mae'r byd yn rhoi. Rhoi fel gwobr, fel haeddiant.

Ond dyw Iesu ddim yn rhoi inni am ein bod ni wedi cyrraedd ryw nod, dyw E ddim yn rhoi am ei fod E'n erfyn (disgwyl) inni roi rhywbeth nôl iddo Fe. Dyw E ddim yn rhoi oherwydd ein bod ni'n haeddu gwobr. Dim o gwbl.

Mae tangnefedd Duw i bawb, ble bynnag y maen nhw, beth bynnag maen nhw wedi gwneud.

Wedi'r cyfan fe dderbyniodd Pedr yr anrheg gyda gweddill y ffrindiau oedd yn bresennol.

Pedr? Ie, yr un un a oedd ar fin gwadu ei fod e wedi bod yn ffrind i Iesu o gwbl. Do, derbyniodd Pedr yr anrheg, ynghyd â'r disgyblion anffyddlon, amheus, anwybodus eraill. Na, dydyn ni ddim yn haeddu'r rhodd werthfawr hon. Yng ngeiriau Eos lâl:

*Am hyn, bechadur, brysia
fel yr wyt, fel yr wyt
Ymfyn am y noddfa
fel yr wyt.*

Yr her inni yw, a ydyn ni am dderbyn yr anrheg? Neu ydyn ni mor hunanfodlon, mor braf ein byd, fel y teimlwn fod modd byw hebddi?

Tywysog tangnefedd wna'n daear o'r diwedd

*Yn aelwyd gyfannedd i fyw
Ni fegir cenfigen na chynnwrf na chynnen
Dan goron bydd diben ein Duw*

**Margaret Jones,
Llywydd y Gymdeithasfa yn y De**

Gweddï Adfent 2017



Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddï

Dros bobl y Pilipinas y Nadolig hwn. Gad i ni

Feddwl am yr angen mawr yno, a chofio yn ein gweddïau bartneriaid Cymorth Cristnogol a'r gwaith y byddwn yn ei gefnogi drwy Apêl Corwynt Cariad.

Effengyl yn galw arnom, nid yn unig i siarad am gariad, ond i weithredu mewn cariad yw Effengyl dy fab, Iesu.

Nadolig, ein cyfle arbennig i ddiolch am, ac i ddathlu dyfodiad y Meseia i'n byd.

Tystiwn ninnau i'r lle sydd ganddo yn ein calonnau trwy ein haelioni i helpu eraill.

Amen

Catrin Roberts